# Arwain 2016

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Cydnabod dyfarnwr gorau'r byd

Mae dyfarnwr rygbi gorau'r byd yn dweud ei bod yn anrhydedd fawr cael gradd Doethur mewn Cyfraith gan Brifysgol Abertawe.

Derbyniodd Nigel Owens ei radd LLD mewn seremoni yn Neuadd Brangwyn, Abertawe yn gynharach eleni. Ac mae hefyd yn helpu'r Brifysgol gyda phrosiect allweddol ar yr iaith Gymraeg.

Daeth yr anrhydedd ychydig fisoedd ar ôl iddo gyrraedd uchafbwynt ei yrfa hyd yma, sef dyfarnu yng ngêm derfynol Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae hefyd yn gyflwynydd teledu poblogaidd, yn ymgyrchwr tros hawliau hoyw ac yn erbyn bwlio ac yn mynnu rhoi lle amlwg i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith.

"Mae Nigel Owens wedi profi ei hun i fod yn ffigwr ysbrydoledig i'n cenhedlaeth, i filiynau o bobl sy'n gallu uniaethu â'i agwedd benderfynol, ei falchder a'i ymroddiad i ragoriaeth," meddai Syr Roderick Evans, Canghellor Prifysgol Abertawe.

Dywedodd Nigel Owens ei bod yn bleser o'r mwya' ganddo dderbyn yr anrhydedd.

"Rwy' bob amser yn ceisio cadw at egwyddorion tegwch er mwyn cynnal gonestrwydd rygbi, a chadw at reolau tegwch bant o'r cae hefyd," meddai.

"Mae'n anrhydedd bod y Brifysgol yn ystyried fy ngwaith – a'r egwyddorion sy'n sail i 'ngwaith a 'mywyd – yn deilwng o radd er anrhydedd. Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad rhagorol, ac yn un dw i'n gwybod sydd yn angerddol am rygbi ac am chwaraeon yn gyffredinol."

## Llysgennad dros y Gymraeg

Mae Nigel Owens hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn prosiect arloesol ac uchelgeisiol sy'n casglu gwybodaeth am ddefnydd y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Tîm o arbenigwyr o Brifysgolion Abertawe a Chaerdydd a phartneriaid eraill sy'n arwain CorCenCC – Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes – a'i amcan yw casglu tystiolaeth i ddangos sut y mae'r iaith yn cael ei defnyddio mewn gwahanol feysydd.

Nigel Owens yw un o'r llysgenhadon sy'n denu pobl i gyfrannu at y prosiect trwy gyfrannu at gasgliad mawr o ddata a fydd yn dangos amrywiaethau rhanbarthol a chymdeithasol.

"Fe fydd cofnod o iaith 'bywyd go iawn' ar gael i bawb sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan ein helpu i weld sut mae Cymraeg cyfoes yn cael ei defnyddio mewn gwirionedd," meddai Nigel.

Fe fydd y Corpws yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i ymchwilwyr, geiriadurwyr, athrawon, dysgwyr a chyfieithwyr gan hefyd hyrwyddo twf technolegau iaith fel darogan testun, adnabod llais a chwilio'r We.

CorCenCC












## Gweithdai i Ysgolion

Cyfleoedd i fynychu ein cyrsiau blas ar addysg uwch amrywiol:

- Saffari Glan Môr a Swoleg – gweithdai biowyddorau
- Gweithdai cyfryngau ar vlogio, sgiliau ffilmio a chynhyrchu, cysylltiadau cyhoeddus
- Cyrsiau Adolygu Cymraeg i Flynyddoedd 12 a 13 (iaith gyntaf ac ail iaith)
- Gweithdai Cyflwyniad Ymarferol i Feddygaeth
- Gweithdai galwedigaethol Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyrsiau Blas ar Beirianneg

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Saran Thomas**
saran.g.thomas@abertawe.ac.uk

# Manylu ar gwrs ... Ffiseg



Astudiaeth o'r bydysawd a'r grymoedd sy'n ei reoli yw Ffiseg, ac mae gradd yn y pwnc yn rhoi sylfaen gadarn i ddeall y byd o'n cwmpas.

Mae'n bwnc heriol sy'n ceisio ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf sylfaenol ynghylch cychwyn y bydysawd a hanfodion mater.

Bellach, trwy gynllun staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae Ffiseg yn bwnc sy'n cynnig cynllun gradd dwyieithog, fel bod elfennau'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan roi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau iaith a meistroli'r pwnc mewn mwy nag un iaith.

Mae Ffiseg hefyd yn ddisgyblaeth arbennig gan ei bod yn meithrin sgiliau dadansoddol a'r ddawn i ddatrys problemau a meddwl yn feirniadol.

Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig dau gwrs gradd yn y pwnc:

**BSc Ffiseg**
**– F300 (3 blynedd)**

**MPhys Ffiseg**
**– F303 (4 blynedd)**

## Gofynion mynediad

- Mae sylfaen gadarn mewn Mathemateg a Ffiseg yn hanfodol.
- Mae graddau AAB-BBB Safon Uwch neu gyfwerth yn ofynnol ar gyfer y cwrs gradd BSc, a graddau AAA-AAB neu gyfwerth ar gyfer y cwrs MPhys.
- Ewch i **www.abertawe.ac.uk** am ragor o fanylion.

## Cyfleoedd cyfrwng Cymraeg

- ysgoloriaethau a bwrsariaethau i'r rhai sy'n dewis astudio'r pwnc trwy'r Gymraeg.
- dysgu arbenigol yn y Gymraeg gan ddarlithwyr cyfeillgar
- modiwl profiad gwaith penodol ar gyfer addysgu ffiseg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- addysgu ardderchog, adnoddau dysgu safonol ac amgylchedd ymchwil o safon rhyngwladol

## Gyrfaoedd posibl?

**Mae gradd mewn Ffiseg yn cynnig llwybrau ardderchog i amrywiaeth o yrfaoedd mewn sawl gwahanol faes:**

- Dadansoddi Risg a Modelu Ariannol ar gyfer byd busnes
- Datblygu meddalwedd a chaledwedd ar gyfer cyfrifiaduron a chyfathrebu byd-eang
- Ffiseg feddygol – ym maes gofal iechyd a diagnosteg feddygol
- Peirianneg a datblygiadau technolegol o bob math
- Rheoli prosiectau yn y diwydiannau Fferyllol a Chemegol.

**DOD I ADNABOD ...**

## Dr Aled Isaac



**Darlithydd Ffiseg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Abertawe**

## Elgan yn ei elfen

**ELGAN WYN ROBERTS**, o Abergele
Myfyriwr Bl 3, BSc Ffiseg

Ro'n i'n gwybod ers pan o'n i'n ifanc mai Ffiseg oedd y pwnc i mi, ac unwaith y ces i fy nerbyn i astudio Ffiseg ym Mhrifysgol Abertawe ro'n i'n fodlon.

**Astudio trwy'r Gymraeg**

Dw i wedi bod yn falch iawn o'r cyfle i gael astudio rhannau o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yn unig oherwydd mai'r Gymraeg ydi fy iaith gyntaf ond hefyd gan ei fod wedi fy ngalluogi i ehangu fy nealltwriaeth o Ffiseg. Mae'n golygu fy mod yn gorfod deall y pwnc yn drwyadl mewn dwy iaith, ac mae hyn yn ddefnyddiol iawn wrth adolygu.



Dw i hefyd yn ffyddiog y bydd hyn yn gwella fy nghyfleoedd o ran swyddi wedi i mi raddio – mae'n dangos bod gen i sgiliau dwyieithrwydd cryf a 'mod i'n hoffi sialens.

**Mwynhau bywyd coleg**

Dw i wrth fy modd yn y brifysgol yn Abertawe, a hynny oherwydd y bywyd cymdeithasol lawn cymaint â'r cwrs. Dw i'n aelod brwd o'r GymGym, y Gymdeithas Gymraeg, ac yn drysorydd eleni. Mae wedi rhoi cyfle imi gyfarfod myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o bob rhan o Gymru a dw i wedi gwneud llu o ffrindiau newydd.

**Be' nesaf?**

Rwyf wedi bod yn lwcus iawn i gael swydd tair blynedd fel Cyfrifydd dan hyfforddiant drwy'r Cynllun hyfforddiant i raddedigion gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd yr her newydd hon i mi yn dechrau fis Medi. Bydd yn chwith gen i adael Abertawe, ond bydd y cyswllt a'r ffrindiau yn siwr o barhau!


## Rhwng CERN ac Abertawe

Mae gwaith ymchwil yng nghanolfan wyddonol enwoca'r byd yn cyfrannu at brofiadau myfyrwyr yn Adran Ffiseg Prifysgol Abertawe.

Yn ogystal â bod yn un o ddarlithwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n arloesi o ran dysgu gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg, mae'r Dr Aled Isaac hefyd yn cyfrannu at brosiect ymchwil yng nghanolfan CERN yn y Swistir.

Trwy ddefnyddio peiriannau sy'n gallu dadansoddi gronynnau mân iawn o fater, mae ef a gwyddonwyr eraill yn ceisio datrys un o ddirgelion mawr y bydysawd.

Os byddan nhw'n llwyddiannus, fe



fyddan nhw'n gallu dweud yn union beth yw nodweddion yr elfen sy'n cael ei galw'n wrth-fater a pam ei bod wedi diflannu ar ôl y Glec Fawr a sbardunodd ein bydysawd ni.

Mae Aled Isaac yn treulio rhai wythnosau bob blwyddyn yn CERN, y ganolfan a ddaeth yn enwog ar ôl profi bodolaeth y gronyn Higgs boson.

"Mae hwn yn waith ymchwil mewn ffiseg sylfaenol," meddai Aled Isaac, sy'n dod o Ferthyr Tudful ac yn brawf amlwg bod modd astudio gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg a llwyddo ar y lefel ucha'.

Yn Gymraeg yr oedd wedi astudio gwyddoniaeth trwy ei flynyddoedd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun a hynny, os rhywbeth, meddai, yn fantais; yn sicr nid fel arall.

"Ffisegwr arbrofol ydw i ac mae'r gwaith yr ydw i'n ei wneud yn CERN yn cyfrannu at y profion ymchwil yr ydw i'n eu cynnal gyda'r myfyrwyr."

Mewn cyfweliad i ddod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe y cafodd ei ysbrydoli gynta' i feddwl am y cwestiynau mawr yn y maes ac mae'n parhau i gael ei wefreiddio wrth ymdrin â nhw bob dydd.

"Mae ateb un cwestiwn yn codi pump cwestiwn arall," meddai, "a dw i wrth fy modd yn meddwl am ddamcaniaeth ac yna'n dyfeisio arbrofion i'w phrofi neu ei gwrthbrofi hi.

"Dw i wedi bod yn darlithio trwy'r Gymraeg ers bron dwy flynedd bellach ac mae'r myfyrwyr wedi bod yn gefnogol iawn, yn cyfrannu at ddatblygiad y cwrs."

Mae'n cynnig gwaith labordy a phrosiectau trwy'r Gymraeg ac yn cydlynu modiwl Addysgu Ffiseg sy'n rhoi profiad i fyfyrwyr o ddysgu'r pwnc mewn ysgol.

# Llais cryf dros hawliau siaradwyr Cymraeg

**Mae gan Brifysgol Abertawe Undeb Myfyrwyr gweithgar a bywiog, ac un sydd yn allweddol i waith yr Undeb yw Lauren Evans, ei Swyddog Materion y Gymraeg – swyddog penodol sy'n gyfrifol am fuddiannau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.**

A hithau'n ddysgwraig ei hun, mae Lauren yn benderfynol o sicrhau bod myfyrwyr yn cael pob cyfle i ddefnyddio'r iaith.

"Dw i'n awyddus i sicrhau bod gan fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dysgwyr ddigon o gyfleoedd i ymarfer yr iaith ar ddau gampws y Brifysgol," meddai'r fyfyrwraig trydedd flwyddyn sy'n cwblhau gradd Gymraeg ar ôl dechrau dysgu'r iaith yn y chweched dosbarth.

"Dw i'n brwydro dros hawliau siaradwyr Cymraeg ac yn ceisio hyrwyddo'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Brifysgol."



## 'Mwy na dysgu iaith'

Mae hi ei hun wedi datblygu llawer wrth astudio yn y Brifysgol.

"Nid dysgu'r iaith yn unig yw astudio am radd yn y Gymraeg," meddai. "Mae'n gyfle i ddysgu am Gymru a'i hanes, ei sefydliadau a'i llenyddiaeth.

"Rwy'n teimlo'n gartrefol iawn yma, ac mae'r dosbarthiadau'n fach, sy'n rhoi cyfle i chi gael mwy o sylw a chymorth gan y darlithwyr."

Trwy brofiad gwaith dan adain Academi Hywel Teifi fe gafodd weithio mewn ysgol gynradd Gymraeg – ei phrofiad cynta' o ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa broffesiynol.

"Roedd profiad fel hyn yn gyfle gwych i ddatblygu fy sgiliau iaith, cael blas ar y byd go iawn a datblygu fy hyder mewn cymaint o sefyllfaoedd ag sy'n bosibl," meddai. Ers hynny mae wedi manteisio ar sawl cyfle arall am brofiad gwaith trwy gynlluniau ar y cyd Academi Hywel Teifi ac Academi Gyflogadwyedd y brifysgol.

"Trwy gyfuno'r astudio, y gweithredu, a'r cymdeithasu gan feithrin sgiliau cyflogadwyedd a phrofiadau proffesiynol amrywiol, mae Lauren wedi sicrhau y bydd yn gaffaeliad mawr i unrhyw gyflogwr", medd Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.

## Cefnogi ymdrechion myfyrwyr

Yn rhinwedd ei gwaith, Lauren Evans yw Llywydd Fforwm Myfyrwyr Cangen Abertawe o'r Coleg Cymraeg, sy'n cefnogi ymdrechion myfyrwyr i gynnal a datblygu cymuned Gymraeg amlwg a bywiog yn y Brifysgol.

"Mae cadeirio'r cyfarfodydd yn rhoi cyfle i fi geisio deall yr hyn y mae myfyrwyr eisiau ei wella neu ei ddatblygu," meddai. "Dw i hefyd yn gallu helpu'r Fforwm i gydweithio ag Undeb y Myfyrwyr i drefnu digwyddiadau i ddathlu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg."

Ac, yn ôl Swyddog Cangen Abertawe o'r Coleg Cymraeg, Lois Wyn Griffiths, "mae'r Fforwm yn llwyfan gwerthfawr i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg leisio barn am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, i alw am gefnogaeth bellach gan y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg ac i bennu eu blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth addysgol ac allgyrsiol yn yr iaith."

# Brodyr brwd

Swyddog Materion Cymraeg y flwyddyn nesa' fydd un o ddau frawd o Aberteifi sy'n aelodau brwd o'r Fforwm Myfyrwyr.

Ar hyn o bryd Alun Bryn Rennolf yw Swyddog Addysg y Fforwm ac mae ei frawd Gwyn Aled Rennolf yn Swyddog Chwaraeon.

Mae'r ddau gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi yn astudio rhan o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, gydag Alun yn ei drydedd flwyddyn yn astudio Ffiseg ar gyfer gradd MPhys, ac Aled ar ei ail flwyddyn BSc Mathemateg.

Mae'r brodyr hefyd wedi sefydlu clwb rygbi sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr chwarae rygbi trwy gyfrwng y Gymraeg.

"R'yn ni'n croesawu myfyrwyr o bob cefndir a gallu ar y cae, boed nhw'n rhai â'r Gymraeg yn iaith gynta' neu'n awyddus i ddysgu ychydig o'r iaith," meddai Alun wrth drafod llwyddiant Clwb Rygbi Tawe. "Mae wedi bod yn gyfle perffaith i rai ddechrau ar ddysgu'r iaith a chwrdd â myfyrwyr Cymraeg drwy chwaraeon yn y Brifysgol."

Yn dilyn poblogrwydd y clwb rygbi, mae Megan Turner, myfyriwr BA Ffrangeg a Sbaeneg a Swyddog Chwaraeon Merched y Fforwm, wedi sefydlu Clwb Chwaraeon Tawe ar gyfer merched, yn cynnig sesiynau ffitrwydd wythnosol trwy gyfrwng y Gymraeg. Y cam nesaf yw sefydlu tîm pêl-rwyd.



# "Ewch Amdani!"

Er mwyn annog mwy o ddarpar fyfyrwyr i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn penodi llysgenhadon o blith myfyrwyr mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae tair o lysgenhadon y Coleg Cymraeg yn astudio yn Abertawe eleni, ac maen nhw'n cynrychioli'r Coleg Cymraeg mewn gwahanol ddigwyddiadau gan gynnwys ffeiriau ac eisteddfodau a chyflwyniadau mewn ysgolion.

Mae'r tair yn cael profiadau arbennig wrth deithio Cymru yn cyfarfod â darpar fyfyrwyr ac yn rhannu eu cyngor.



"Cerwch amdani! Mae'r gallu i astudio trwy ddwy iaith yn dangos i gyflogwyr eich bod yn gallu addasu eich ffordd o weithio. Does dim rhaid i'ch gallu ieithyddol Cymraeg fod yn anhygoel gan fod llawer o gymorth yn y brifysgol gydag unrhyw broblemau ac anawsterau felly bydd eich sgiliau yn gwella wrth i chi fynd ymlaen."

**Jeno Lewis**
BA Daearyddiaeth, o Dal-y-bont ger Aberystwyth.

"Mae astudio trwy'r Gymraeg yn gallu'ch helpu chi i ddatblygu eich sgiliau ymhellach, ac wrth gwrs, gwella eich Cymraeg. Hefyd, gan mai grwpiau bach ohonon ni sy'n astudio ieithoedd trwy'r Gymraeg, mae mwy o gyfle i ofyn am help a chael esboniad cliriach. Dw i'n hynod falch o gael y cyfle i bwysleisio'r manteision hyn i fyfyrwyr eraill."

**Abbie Heasley**
BA Ieithoedd Modern, o Lyn Ebwy.

"Rwy'n awyddus i wneud i bobl yn yr ysgol a'r coleg fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a'u hannog nhw i fanteisio arnyn nhw. Mae'n brofiad ardderchog cael cwrdd â phobl wahanol a lledaenu'r neges am waith y Coleg Cymraeg a'r manteision o astudio trwy'r Gymraeg."

**Kayleigh Jones**
BA Mathemateg a Chymraeg, o Ystalyfera yng Nghwm Tawe.

Llun: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Cyfathrebu trwy brofiad

Cynghori mudiad ymgyrchu, cael profiad gwaith gyda chwmni lobïo a chynhyrchu eu rhaglenni radio eu hunain – dyma rai o weithgareddau ymarferol myfyrwyr y cwrs gradd BA Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwetha'.

"Mae ein pwyslais fel adran ar gyd-blethu gwaith academaidd â phrofiad uniongyrchol o weithio yn y cyfryngau a'r diwydiannau cyfathrebu," meddai Iwan Williams, Darlithydd Cysylltiadau Cyhoeddus y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. "Mae'r agwedd academaidd yn rhoi'r cefndir angenrheidiol a'r profiad ymarferol i fyfyrwyr ac yn rhoi'r sgiliau a fydd yn gwella'u siawns o gael swyddi. O gael panel diwydiant yn ein cynghori ar yr anghenion diweddaraf o ran gofynion sgiliau yn y sector, mae modd i ni ddarparu'r hyfforddiant hwnnw i'n myfyrwyr cyn iddynt raddio a'u gwneud yn fwy atyniadol i gyflogwyr."

Ers bron i dair blynedd, mae modd gwneud gradd yn y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn gyfangwbl drwy'r Gymraeg yn Abertawe – naill ai fel gradd BA sengl yn y pwnc, neu fel gradd BA gyfun ar y cyd â'r Gymraeg. Fe fydd y myfyrwyr cyntaf yn graddio'r flwyddyn nesa'.



"Mae'r modiwl profiad gwaith wedi profi i fod yn boblogaidd a gwerthfawr iawn," meddai Iwan Williams. "Maen nhw'n treulio diwrnod yr wythnos am un semester gyda chyflogwr ac yn cael cyfle gwych i ddatblygu."

Ymhlith y lleoliadau sydd wedi derbyn myfyrwyr eleni mae Deryn, y cwmni lobïo, cwmni cynhyrchu Telesgop ac NUS Cymru. Meddai Iwan Thomas, sydd yn ei ail flwyddyn ar y cwrs, "Mae cael profiad ymarferol o'r gweithle – gydag ITV Cymru ac yna gwmni cysylltiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd – wedi bod o fudd aruthrol i mi. Bydd yn fy ngalluogi i wahaniaethu fy hun o'm cymheiriaid wrth geisio am swyddi, ac rwyf wedi cael cyfle unigryw i ddatblygu fel unigolyn."

Mae myfyrwyr eraill wedi bod yn cynghori Cyfeillion y Ddaear ar ddatblygu eu gwefan a phrosiect tebyg gyda chwmni cerddoriaeth Sain.